

Canolfannau cyswllt plant

... er mwyn i fagu plant barhau er bod partneriaeth wedi dod i ben



Hyrwyddo cyswllt plant diogel o fewn fframwaith cenedlaethol o oddeutu 350 ganolfannau cyswllt plant a gwasanaethau

Beth yw canolfan cyswllt plant?

Mae canolfannau cyswllt plant yn fannau diogel, cyfeillgar a niwtral lle gall plant teuluoedd sydd wedi gwahanu dreulio amser gydag un rhiant neu'r ddau, ac weithiau, gydag aelodau eraill y teulu. Dyma fannau sy'n gosod y plentyn yn y canol ac sy'n rhoi anghenion y plant yn gyntaf.

Sut le ydy canolfan cyswllt plant?

Y bobl fwyaf pwysig yn y ganolfan cyswllt plant yw'r plant. Ein nod yw creu nawws cynnes, cymdeithasol lle gallwch chi a'ch plant ymlacio a mwynhau eich hunain. Mae rhan o'r ganolfan yn cynnwys amrywiaeth o gemau, teganau a llyfrau ar gyfer plant o bob oed. Mae te, coffi a mathau eraill o luniaeth ar gael. Mae'n bosib yr hoffech chi ddod â rhai teganau hoff gyda chi, rhyw ddiodydd arbennig neu bethau eraill y gellid bod eu hangen arnoch chi, megis clytiau babi.

Nod y ganolfan cyswllt plant yw cynnig gwasanaeth cyfartal ac amrywiol ac mae'n cael ei rhedeg gan staff neu wirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi'n llawn. Maen nhw'n ddiduedd, felly dydyn nhw ddim yn cymryd ochr neb. Maen nhw'n gweithio'n unol â pholisi cyfrinachedd cwbl gaeth ac maen nhw i gyd wedi cael archwiliad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ac mae polisiau diogelu ar waith.

Sut mae ymweliadau'n cael eu trefnu?

Trefnir ymweliadau fel arfer trwy atgyfeiriadau. Gall gweithiwr cymdeithasol, twrnai, cyfryngwr teulu neu swyddog CAF/CASS atgyfeirio, neu drwy orchymyn llys. Mae'r sawl sy'n gwneud yr atgyfeirio'n llenwi ffurflen atgyfeirio ac yn ei hanfon at gydlynnydd y ganolfan. Efallai y bydd rhai canolfannau'n derbyn pobl sy'n atgyfeirio'u hunain. Mae pa mor aml y byddwch yn dod i'r ganolfan yn dibynnu arnoch chi, a phryd mae'r ganolfan ar agor.

Gofynnwn i chi (y rhiant) a'ch plentyn neu blant ddod i weld y ganolfan cyn eich ymweliad swyddogol cyntaf. Bydd hyn yn eich helpu i ddod yn gyfarwydd â'r ganolfan a'r staff, ac yn gwneud eich ymweliad cyntaf yn haws.

Oes raid i mi ddod wyneb yn wyneb â'm cyn-bartner pan af i'r ganolfan?

Ddim os nad ydych chi eisiau. Rhieni sy'n gyfrifol am eu plant yr holl adeg y byddan nhw yn y ganolfan felly bydd yn rhaid i chi aros gyda'ch plentyn tan fydd eich cyn-bartner yn cyrraedd. Fodd bynnag, gall staff y ganolfan ddelio â throsglwyddo'ch plentyn, fel nad oes raid i chi gyfarfod â'ch cyn-bartner.



Beth sy'n digwydd os na alla' i ddod ar yr amser a drefnais ymweliad?

Gadewch i'ch cyn-bartner a chydlynnydd y ganolfan wybod cyn gynted ag y medrwch.

Ydy'r ganolfan yn gwneud unrhyw adroddiadau amdanon ni?

Mae canolfan cyswllt plant yn annibynnol ar y llysoedd, CAF/CASS, CAF/CASS CYMRU, gwasanaethau cymdeithasol ac unrhyw asiantaeth statudol. Dydy canolfannau gyda chefnogaeth ddim yn gwneud adroddiadau llafar nac ysgrifenedig am ymweliadau, ar wahân i ddyddiadau ac amseroedd mynychu. Yr unig eithriad a wnawn yw os credwn fod plentyn mewn perygl neu os oes aelod o staff, gwirfoddolwr neu ddefnyddiwr y ganolfan mewn perygl o gael niwed.

Oes yna rywbeth y mae angen i mi ei wneud?

Gan mai amser arbennig i blant dreulio gyda'r rhiant nad ydynt yn byw gydag ef/hi mwyach yw'r amser hwn, rydym yn gofyn i bartneriaid newydd gadw draw o'r ganolfan. Hefyd, byddwch gystal â chadw unrhyw anghydfod o'r ganolfan cyswllt plant. Cofiwch fod eich plentyn yn brifo hefyd. Gwnewch hwn yn amser hapus iddyn nhw.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi a'ch teulu

Oes yna unrhyw reolau?

Cyn lleied â phosib! Fodd bynnag, mae'r ganolfan yn cael ei defnyddio gan sawl teulu yr un pryd, felly mae'n rhaid i ni warchod diogelwch pawb a meddwl am eraill:

- Rhieni sy'n gyfrifol am ddiogelwch a goruchwyliaeth eu plant yr holl amser y maen nhw yn y ganolfan. Ni cheir gadael unrhyw blentyn heb riant yn edrych ar ei ôl.
- Rhaid i chi ddarparu rhif ffôn cyswllt pan fyddwch yn gadael plant yn y ganolfan.
- Ni cheir cymryd plentyn o'r ganolfan yn ystod ymweliad ar unrhyw gyfrif oni nodir hynny ar y ffurflen atgyfeirio, neu gyda chaniatâd ysgrifenedig y ddau riant.
- Dim ond os ydyn nhw wedi eu henwi ar y ffurflen atgyfeirio y caiff perthnasau neu ffrindiau fod yn bresennol.
- Ni chaniateir unrhyw ddadlau a ffraeo o flaen unrhyw blant. Ni dderbynnir ymddygiad ymosodol neu fygythiol na sylwadau hiliol neu sarhaus. Gofynnir i unrhyw ymwelydd sy'n ymddwyn yn y fath fodd i adael.
- Yn olaf, os gwelwch yn dda: Dim ysmegu yn y ganolfan. Diffoddwch eich ffôn symudol pan fyddwch gyda'ch plentyn. Peidiwch â dod ag anifeiliaid anwes gyda chi. Dim tynnu ffotograffau, ffilmio fideo na defnyddio cyfrifiaduron symudol heblaw bod y parti arall a'r cydlynnydd neu arweinydd y tîm wedi rhoi eu caniatâd. Ni chaniateir alcohol na chyffuriau yn yr adeilad nac unrhyw un sydd dan ddylanwad y rhain.



Your local child contact centre

Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant

Hyrwyddo cyswllt plant diogel o fewn fframwaith cenedlaethol o ganolfannau cyswllt plant a gwasanaethau

Mae gan y canolfannau cyswllt plant sy'n aelodau o NACCC, a'u gwasanaethau, broses achredu ardystiedig sy'n dangos bod holl ganolfannau cyswllt plant NACCC yn gweithio'n unol â safonau cenedlaethol cymeradwy y cytunwyd arnynt sy'n sicrhau bod teuluoedd sy'n defnyddio'r canolfannau cyswllt plant yn ddiogel ac yn cael gofal da.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am Gymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant, cysylltwch â:



Ffôn: 0845 4500 280 (pris galwad lleol)
0115 948 4557*
*rhatach o'ch ffôn symudol
e-bost: contact@nacc.org.uk
www.nacc.org.uk

National Association of Child Contact Centres

Rhif Cofrestru'r Elusen: 1078636
Rhif Cwmni Cyfyngedig drwy Warant: 3886023
(Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr)

Child contact centres

... so that parenting needn't end when a partnership does



Promoting safe child contact within a national framework of around 350 child contact centres and services

What is a child contact centre?

Child contact centres are safe, friendly and neutral places where children of separated families can spend time with one or both parents, and sometimes other family members. They are child-centred environments that put the needs of the children first.

What is it like at a child contact centre?

The most important people in the child contact centre are the children. We aim to create a warm, sociable atmosphere where you and your children can relax and enjoy yourselves. The centre has an area with a variety of games, toys and books for children of all ages. Tea, coffee and other refreshments are provided. You may want to bring along some favourite toys, special drinks, or other things you might need such as nappies.

The child contact centre aims to offer an equal and diverse service and is run by fully trained volunteers or staff. They are impartial, so they do not take sides. They work to a strict confidentiality policy, have all been through an enhanced Criminal Records Bureau check and have safeguarding policies in place.

How are the visits arranged?

Visits are normally by referral. The referral can be made by a social worker, solicitor, family mediator, CAFCASS officer, or by a court order. The person making the referral fills out a referral form and sends it to the centre co-ordinator. Some centres may accept self referrals. How often you come to the centre depends on you and when the centre is open.

We ask you (the parent) and your child or children to come and see the centre before your first arranged visit. This will help you get to know the centre and the staff, and make your first visit easier.

Do I have to meet my ex-partner when I go to the centre?

Not if you don't want to. Parents are responsible for their children at all times while at the centre so you will have to wait with your child until your ex-partner arrives. However, the centre staff can deal with the handover of your child so you don't need to meet your ex-partner.



What happens if I can't come at a time when I've arranged a visit?

Let your ex-partner and the centre co-ordinator know as soon as you can.

Does the centre make any reports about us?

A child contact centre is independent of the courts, CAFCAS, CAFCASS CYMRU, social services or any statutory agency. Supported centres do not make verbal or written reports about visits, apart from the dates and times of attendance. The only exception to this is if we believe that a child is at risk, or if a member of staff, volunteer or centre user is at risk of harm.

Is there anything I need to do?

As this is a special time for children to spend with the parent they no longer live with, we ask that new partners do not attend the centre. Also, please keep disagreements out of the child contact centre. Remember that your child is hurting too. Make this a happy time for them.

We look forward to welcoming you and your family

Are there any rules?

As few as possible! However, the centre is used by several families at the same time, so we have to ensure the safety of everyone and consideration for others:

- Parents are responsible for the safety and supervision of their children at all times while at the centre. No child may be left without a parent in attendance.
- You must provide a contact telephone number when leaving children at the centre.
- A child may only be taken from the centre during a visit if this is stated on the referral form, or with the written consent of both parents.
- Relatives or friends can only attend if they are named on the referral form.
- There must be no arguing in front of any of the children. Abusive or aggressive behaviour and racist or other offensive remarks will not be tolerated. Any visitor acting in such a way will be asked to leave.
- Finally, please: No smoking in the centre. Switch off your mobile phone while you're with your child. Don't bring any pets. No taking photographs, video filming, or use of portable computers unless the other party and the co-ordinator or team leader have given their permission. Alcohol, drugs, or anyone under the influence of these will not be allowed onto the premises.



Your local child contact centre



Please see overleaf for details of your local centre



National Association of Child Contact Centres

Promoting safe child contact within a national framework of child contact centres and services

NACCC's member child contact centres and services have an endorsed accreditation process which shows that all NACCC child contact centres work to agreed and approved national standards, which ensure that families using the child contact centres are safe and well cared for.

If you would like to find out more about the National Association of Child Contact Centres, please contact:



Tel: 0845 4500 280 (local rate)
0115 948 4557*

*cheaper from your mobile
email: contact@nacc.org.uk
www.nacc.org.uk

National Association of Child Contact Centres,

Registered Charity Number: 1078636
Company Limited by Guarantee Number: 3886023
(Registered in England and Wales)